



**Gweithiwr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref
Parhaol 37 awr yr wythnos
Adran Diogelwch Cymunedol
Swyddfa Ardal Conwy a Sir Ddinbych, Bae Colwyn
Gradd 04 GTAGC £20,751 – £21,589 y flwyddyn**

Gweithio'n agos gyda grwpiau bregus mewn cymunedau yng Ngogledd Cymru (h.y. defnyddwyr alcohol a chyffuriau, yr henoed, pobl anabl) a darparu cyngor, arweiniad ac offer diogelwch i gyfrannu at eu hiechyd a'u lles.

CYMWYSTERAU I'W HARDDANGOS

Mae'r rôl yn gofyn am ymgeiswyr sy'n gallu arddangos (gyda thystiolaeth) sgiliau yn yr meysydd canlynol:

Gofynion Hanfodol

- Addysg hyd at NVQ Lefel 2 neu gyfwerth mewn pwnc yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, neu brofiad cyfwerth o weithio gyda'r grŵp targed a nodwyd.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion y rhai sydd yn y grŵp targed a nodwyd.
- Sgiliau rhagorol mewn Technoleg Gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth ddigonol o feddalwedd Microsoft Office.
- Gallu rheoli eich amser a'ch llwyth gwaith eich hun, a chwrdd â therfynau amser.
- Gallu gweithio fel rhan o dîm ac yn annibynnol, gan ddefnyddio'ch blaengaredd eich hun.
- Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno rhagorol.
- Trwydded yrru lawn ar gyfer gyrru cerbydau ysgafn y Gwasanaeth.
- Yn amodol ar Wiriad Cofnodion Troseddol Ehangach.
- Cymraeg Lefel 4 – Siarad a Gwranddo – Yn gofyn eich bod yn medru: Cynnal sgwrs estynedig hamddenol yn glŷn â gwaith neu roddi cyflwyniad gyda lefel dda o rwyddineb ac amrywiaeth mynegiant ond efallai y bydd angen troi i iaith arall i ateb cwestiynau na ddisgwylwyd neu i esbonio pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol. Cyfrannu'n effeithiol i gyfarfodydd a seminarau yn eich maes gwaith chi. Dadlau o blaid / yn erbyn achos.

Gofynion Dymunol

- Cymhwyster mewn Iechyd a Diogelwch (CIEH neu IOSH).
- Cymhwyster Cymorth Cyntaf (Cymorth Cyntaf yn y Gwaith 4 diwrnod a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw hanner dydd, 14 Mehefin 2019.

Dalier sylw, pe byddech yn cyrraedd y rhestr fer, cynhelir yr asesiadau a chyfweliadau ar 26 - 27 Mehefin 2019

Glynir at y dyddiad cau ac ni fydd eithriadau.

Mae rhagor o fanylion a ffurflenni cais ar gael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, neu o'r Adran Adnoddau Dynol ar 01745 535280 neu drwy anfon e-bost i Hrdesk@gwastan-gogcymru.org.uk

*Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal a chroesawn geisiadau gan bob rhan o'r gymuned.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r ddwy ac yn ymateb yn eich dewis iaith heb oedi.*

